# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 9 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(63)v3

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Cynnig i ddirymu Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012 (Saesneg yn unig) (30 munud)

**NNDM4981 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.2 yn cytuno bod Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 15 Mawrth 2012, yn cael eu dirymu.

**Dogfennau Ategol:**
Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012 (Saesneg yn unig)
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

### 4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

**NNDM4965**

**Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**
**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**
**Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gostyngiad mesuradwy mewn colli golwg y mae modd ei osgoi yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

**Cefnogwyd gan:**
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Julie James (Gorllewin Abertawe)
Lynne Neagle (Tor-faen)
Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)
Sandy Mewies (Delyn)
Mark Isherwood (Gogledd Cymru)
Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Mick Antoniw (Pontypridd)
Aled Roberts (Gogledd Cymru)
Andrew RT Davies (Canol De Cymru)
Darren Millar (Gorllewin Clwyd)
Janet Finch-Saunders (Aberconwy)
Nick Ramsay (Mynwy)
Eluned Parrott (Canol De Cymru)
Keith Davies (Llanelli)
David Rees (Aberafan)
Alun Ffred Jones (Arfon)
Russell George (Sir Drefaldwyn)
Byron Davies (Gorllewin De Cymru)
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM4977 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnwys y papur 'Law yn Llaw at Iechyd - Pam fod angen newid' a gyflwynwyd i gabinet Llywodraeth Cymru ar 13 Mawrth 2012.

2. Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â rhannu ei bwriad â phobl Cymru tan nawr ynghylch dyfodol y GIG yng Nghymru.

Gellir gweld 'Law yn Llaw at Iechyd - Pam fod angen newid' drwy fynd i:
http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetmeetings/4thassembly/13mar12/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2.

**Gwelliant 2 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu manylion llawn y newidiadau arfaethedig ar y cyfle cyntaf er mwyn hwyluso dadleuon ar sail gwybodaeth ar lefel leol.

**6. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM4978 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi â phryder y cynnydd mewn ffigurau diweithdra, yn enwedig ymysg menywod, pobl ifanc a phobl ag anableddau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig 'ac effaith y polisïau y mae Llywodraeth y DU yn eu dilyn ar ddiweithdra'.

**Gwelliant 2 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r Contract Ieuenctid sy'n cynnwys lleoliadau profiad gwaith gwirfoddol i bobl ifanc yng Nghymru, ac yn croesawu cymorth ariannol ychwanegol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Recriwtiaid Newydd.

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod diweithdra yng Nghymru yn dal yn uwch na holl wledydd eraill y DU.

**Gwelliant 4 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod diweithdra ieuenctid yng Nghymru wedi bod yn uwch na chyfradd y DU ym mhob blwyddyn er 2001 a bod 11.5 y cant o bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed a 23.2 y cant o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yn cael eu dosbarthu ar hyn o bryd fel pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant.

**Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r datganiad gan y Ffederasiwn Busnesau Bach sy’n honni y gellid cyflogi pawb sy’n chwilio am swydd petai bob busnes bach a chanolig yn recriwtio un unigolyn arall.

Gellir gweld y datganiad o Faniffesto Cynlluniad y Ffederasiwn Busnesau Bach, Mawrth 2011 drwy fynd i:

http://www.fsb.org.uk/policy/rpu/wales/images/fsb%20wales%202011%20manifesto.pdf

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio’n adeiladol gyda Llywodraeth y DU a’r gymuned fusnes i greu rhagor o gyfleoedd swyddi.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 15 Mai 2012